

Cofnodion Ffrindiau Ysgol Pwll Coch Minutes 16.03.22

Presennol/Present: Mike Gelder (Cadeirydd/Chair), Non Stevens (Is-gadeirydd/Vice Chair), Rachel James, Alice Rothwell, Dewi Rees, Elin Timmer (Ysgrifennydd/Secretary), Beverley Kibble (Trysorydd/Treasurer), Siwan Seaman, Lowri Edwards (Ysgrifennydd/Secretary - cofnodion), Jo Beavan Matcher, Ross Dingle, Becca Avci

- **Ymddiheuriadau/Apologies** – Nia Roberts, Beca Davies, Gwenfair Griffith, Nicole Skirme, Sarah Alldis, Rhiannon Bianchi
- **Raffl y gwanwyn/Spring Raffle** – llwyddiant ysgubol arall a dim llawer o waith trefnu unwaith mae'r gwobrau ar gael a'r tocynnau ar werth. 986 o docynnau wedi'u gwerthu'r tro hwn a £892.39 yng nghoffrau Ffrindiau Pwll Coch. Byddwn yn cynnal raffl arall adeg y Nadolig. The spring raffle was another great success and involved minimal efforts once the prizes were in place and tickets were on sale. 986 tickets sold this time and £892.39 raised for Ffrindiau Pwll Coch.
- **29/4/22 - Her stadiwm Dinas Caerdydd/Cardiff City Stadium challenge** – gwaith trefnu'n mynd rhagddo ar gyfer yr her fawr ar 29 Ebrill gyda nifer o gysylltiadau gyda chlwb Dinas Caerdydd a'r wasg yn y gobaith o gael sylw i'r digwyddiad. Bydd cyfle i bob un disgybl yn Ysgol Pwll Coch fod yn rhan o'r her gyda'r gobaith y bydd modd i'r ysgol eistedd ar bob un sedd yn y stadiwm. *Work is underway to arrange the big challenge at the stadium on 29 April with a number of connections being set up with Cardiff City club and the media in the hope of generating interest in the event. Every pupil in the school will have an opportunity to be a part of this challenge in the hope that the school will be successful in sitting on every single seat in the stadium between them.*
- **Noson gwis/Quiz night 1/4/2022** – Gwerthwyd tocynnau am £6 y tocyn a chafwyd criw da iawn a noson hwyliog yn y cwis o dan ofal y cwisfeistr, Mike Gelder. Codwyd dros £500 i Ffrindiau Pwll Coch. *Tickets were sold for £6 each and there was a very good turnout and a fun night at the quiz with the excellent quizmaster, Mike Gelder. Over £500 was raised for Ffrindiau Pwll Coch.*
- **Digwyddiadau tymor yr haf/Summer term events -**
 - Bwriad i gynnal digwyddiad hwyl haf i ddod â chymuned yr ysgol at ei gilydd yn gymdeithasol – naill ai ar ôl ysgol neu ar benwythnos. Dyddiad a manylion i'w cadarnhau. Bwriad hefyd ar ryw bwynt i gynnal yr ŵyl fwyd ryngwladol gafodd ei chanslo yn haf 2020. Dyddiad i'w drafod. Bydd angen cysylltu â'r cyngor i weld pa gyfleusterau sydd ar gael i'w defnyddio ar gyfer digwyddiad o'r fath ac ailedrych ar y manylion i weld pa mor bell oedd y trefniadau wedi mynd. Y bwriad yw cael stondinau bwyd o wahanol wledydd o gwmpas y byd fel digwyddiad cynhwysol i ddathlu amrywiaeth Ysgol Pwll Coch a bydd plant yn casglu stamps mewn pasborts drwy fynd i'r gwahanol stondinau. Os oes gan unrhyw un ddi-ddordeb mewn cyfrannu ar y diwrnod, naill ai drwy redeg stonidin sy'n cynrychioli gwlad benodol neu gyda threfniadau cyffredinol, cysylltwch â ni! *There is an intention to hold a summer fun event to give the school community an opportunity to get together – either after school or on a weekend. Dates and details to be confirmed. We also intend to hold the International food festival at some point after it was cancelled in summer 2020. Date to be confirmed. Need to contact the council to see if there are any facilities available that could be used for an event of this type and also go back to the arrangements that had been made first time round to see where we're at. The intention is to have food stalls representing countries from all over the world to*

celebrate the diversity of Ysgol Pwll Coch and children will be able to collect stamps in their passports by visiting the different stalls. If anyone is interested in helping on the day – either by running a stall from a specific country or with general arrangements, please get in touch!

- **Diweddariad am offer chwarae/Update on play equipment (Mr Rees)** – Hen gyfarpar chwarae wedi mynd ac mae'r arian grant i dalu am offer newydd wedi cyrraedd. Ross Dingle Clwb Carco wedi siarad gyda cwpwl o gwmnïau i gael syniad o brisiau a syniadau o'r hyn sy'n bosib ei wneud. Wedi penderfynu ar swing fasedged, caban siâp octagon gyda chyfarpar synhwyraidd ar yr ochr, pont, twnnel a tipi. Does dim angen arian ychwanegol ar ben y grant i dalu am hyn ac bydd ychwanegu'r offer hyn yn golygu bod yr ardal chwarae tu fas yn gyflawn a bydd dim angen unrhyw beth arall am gyfnod. Mae'r ystafell ddosbarth tu fas a'r ardd nawr ar gael ac yn cael eu defnyddio. Mae bwriad hefyd i ddisgyblion yr ysgol allu defnyddio pwll nofio ysgol Fitzalan ac mae trafodaethau ar y gweill i sicrhau athrawon nofio o'r Urdd i ddod i roi gwersi. *Old play equipment has been removed and grant funding for new equipment has arrived. Ross Dingle Clwb Carco spoke to a few companies to get some quotes and ideas for what could be done and the school has decided on a basket swing, an octagonal hut with sensory equipment on the side, a bridge, a tunnel and a teepee. No additional funding is needed as the grant money will cover all expenses. Following this development, the outdoor play area will be complete and will not need any further work for quite a while. The outdoor classroom and the Pwll Coch garden are now available and are being used by the pupils. There have also been discussions about holding swimming lessons for Pwll Coch pupils at the Fitzalan pool and instructors for swimming lessons from the Urdd are being arranged.*
- **Nodau ariannol nesaf i Ffrindiau Pwll Coch/Next financial goals for Ffrindiau Pwll Coch** – mae'r ysgol yn dymuno ailwneud yr ardal awyr agored y tu allan i'r dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen. Bydd yr ysgol yn talu £5,000 o hyn ac mae'n awyddus i gael cyfraniad gan Ffrindiau Pwll Coch – unrhyw swm sy'n bosib yn cael ei werthfawrogi ond tua £5,000 fyddai'n ddelfrydol. Yn ogystal, mae'r dosbarth awyr agored wedi dechrau cael ei ddefnyddio ar gyfer Ysgol Goedwig ac mae gan athrawon y Cyfnod Sylfaen restr o bethau y bydden nhw'n dymuno eu cael ar gyfer yr Ysgol Goedwig – cost hyn yn dod i tua £620. Cytunwyd y byddai Ffrindiau Pwll Coch yn rhoi £5,000 tuag at y ddau beth sef £4,500 tuag at yr ardal awyr agored a £500 ar gyfer yr Ysgol Goedwig (ac y gellid cynyddu hyn i £5,500 os byddai'r cwis yn llwyddiant – angen cadw hyn a hyn yn y cyfrif er mwyn talu costau'r Ffrindiau fel yswiriant etc). Trafodwyd y syniad bod Ffrindiau Pwll Coch yn rhoi arian tuag at brosiectau mawr ond hefyd yn cadw arian wrth gefn y gall athrawon unigol wneud cais amdano – symiau llai. Byddai'n beth da cael rhestr o bethau y mae athrawon blynyddoedd hyn yr ysgol yn dymuno eu cael i'w disgyblion. Llauer o arian wedi mynd ar y blynyddoedd iawn dros y blynyddoedd diwetha felly byddai'n dda canolbwyntio ar y rhai hyn. Angen targedau gweledol ar gyfer codi arian. *The school wishes to redo the outdoor learning area for the Foundation Phase classes. The school will pay £5,000 and would like a contribution from Ffrindiau Pwll Coch as well – any sum that is possible would be appreciated but around £5,000 would be ideal. The outdoor classroom has also been set up and is being used for forest school by the Foundation Phase. Teachers have written a wish list of things they would like to be able to buy for forest school days – total cost comes to around £620. Agreed to contribute £5,000 for both things; namely £4,500 for the outdoor learning area and*

£500 for the wish list (total contribution could be increased to £5,500 if quiz night went well – need to keep a certain amount in the Ffrindiau account for expenses such as Insurance etc). Discussed the idea of Ffrindiau Pwll Coch giving money towards big projects but also keeping smaller amounts back so that individual teachers can bid for smaller sums for specific projects they want to do. It would also be good to have a list of things the upper school need that Ffrindiau Pwll Coch could help to fund. A lot of money has been raised for the early years in recent years so it would be good to concentrate on the upper school once the outdoor areas have all been completed. Need visual targets for fundraising efforts.

- **Syniadau eraill ar gyfer codi arian:**
 1. Cynllun tokens yn bodoli yn John Lewis (a dim llawer o bobl yn gwybod amdano) – gwerth edrych mewn i hyn. *Token scheme exists in John Lewis (and not many people know about it) – worth investigating.*
 2. Ernest Cook Trust – ariannu prosiectau dysgu awyr agored/*funding for outdoor learning projects.*
 3. Trafod gyda chwmnïau lleol o ran cael nawdd ar gyfer digwyddiadau a hefyd cwmnïau adeiladu sy'n datblygu yn yr ardal gyfagos. *Try to secure sponsorship from local companies for events and also approach building/development companies with a local presence.*
- **Hysbyseb Moginie James advertising banner** – bydd baner yn cael ei gosod y tu fas i'r ysgol yn hysbysebu'r ffaith bod Moginie James yn rhoi cyfraniad i'r ysgol os bydd un o aelodau cymuned yr ysgol yn gosod neu werthu tŷ drwy Moginie James. Llun o blant Pwll Coch ar y faner yn well na llun generic o blant mewn gwisgoed coch. Hyn i gael ei sortio gan yr ysgol. *A banner will be placed outside the school to advertise Moginie James' scheme whereby anyone from the school community who lets or sells a house through Moginie James will secure a donation to the school. Picture of Pwll Coch children better than generic picture on banner – school to sort.*
- **Diweddariad ariannol/Finance update (Beverley Kibble)** – £770.05 i mewn yn mis Chwefror sef £45.50 diwrnod di-wisg ysgol, £46.79 o easyfundraising, £254.65 o'r cynllun cardiau Nadolig, £16.34 Amazon Europe, arian raffl £369.27, hoodie a chyfraniad £37.50. Daeth £582.28 i mewn yn mis Mawrth – tocynnau raffl. Arian o gynllun coed Nadolig Coed Cerrig yn dal i ddod, hefyd yr arian o ddigwyddiad codi arian yn yr Ivor Davies. Roedd gan Ffrindiau Pwll Coch hen ddyledion i'r ysgol oherwydd sic a ddychwelyd wrth newid cyfrifon ac enwau i lofnodi sicciau felly talwyd £1464.98 i'r ysgol. Mae £7,360 yn y banc ar hyn o bryd. £770.05 came into the account during February and March which was £45.50 from non-uniform day, £46.79 from easyfundraising, £254.65 from Christmas card scheme, £16.34 Amazon Europe, raffle money £369.27. March income £582.28 (raffle tickets). *Money for Christmas tree scheme at Coed Cerrig and fundraising event organised by Ivor Davies still to come. Ffrindiau Pwll Coch had an old debt to the school because of a cheque bouncing during transition from one account and changing of signatories, so £1464.98 was paid to the school in February. Balance is currently £7,360.*
- **Dyddiad cyfarfod nesaf/Date of next meeting 5/5/22 @ 7.30pm.**
Lleoliad i'w gadarnhau/Venue TBC